IN HOUSE					
TAX	0.069		4.97		
PREMISES	0.267		19.24	0.157	10.84
ADMINISTRATIVE	0.251		18.08	0.286	19.75
STRATEGY					
EDUCATION AND COMMS					
REVENUE FUNDING OF					
CAPITAL	0.065		4.68	0.295	20.37
CONTINGENCY					
TO BALANCES	0.366		26.37	0.215	14.84
		1.388		1.448	
LEVIES RANGE FROM /TO		NIL	NIL	NIL	NIL
10 authorities					
AVERAGE LEVY		NIL		NIL	
CAPITAL SPEND					
FOR EACH AUTHORITY 20/21		NIL		NIL	
RANGE					
AVERAGE	by 2020/21				
			NOTE 3		NOTE 4

		£M	%
		CARDIFF	
		2020/21	
TOTAL EXPENDITURE		1.691	
TOTAL INCOME			
CHARGES AND SALES			
GRANTS			
LEVIES	1.105		65.350
USE OF BALANCES			
RENTS			
INTEREST			
INVESTMENT FUND/START UP	0.586		34.650
		1.691	
EXPENDITURE			
OPERATIONAL /PROJECT	1.070		63.276
CONTRACTS			
IN HOUSE	0.084		4.967
TAX			
PREMISES	0.021		1.241
ADMINISTRATIVE	0.435		25.724
STRATEGY			
EDUCATION AND COMMS			
REVENUE FUNDING OF			
CAPITAL			
CONTINGENCY	0.081		4.967
TO BALANCES			
		1.691	
LEVIES RANGE FROM /TO			
10 authorities			
AVERAGE LEVY	0.110		
CAPITAL SPEND			
FOR EACH AUTHORITY 20/21			
RANGE	0.610	3.675	
AVERAGE	1.549		
		NOTE 5	

COMBINED AUTHORITIES				
		WEST OF ENGLAND		
		2019/20		
		£m	£m	%
TOTAL EXPENDITURE			47.219	
TOTAL INCOME				
CHARGES AND SALES				
GRANTS		15.501		32.828
LEVIES		14.737		31.210
USE OF BALANCES				
BUSINESS RATE RETENTION		1.212		2.567
INTEREST		0.820		1.736
INVESTMENT FUND/START UP		14.949		31.659
			47219	
EXPENDITURE				
PROJECTS STAFF		1.942		4.113
TRANSPORT		14.737		31.21
IN HOUSE				
TAX				
PREMISES		0.215		0.456
ADMINISTRATIVE		1.660		3.515
CONTRIBUTION TO MAYOR		1.828		3.871
EDUCATION AND COMMS				
PROJECT SPEND		26.837		56.835
CONTINGENCY				
TO BALANCES			47219	
LEVIES RANGE FROM /TO		2.566	7912	
3 authorities				
AVERAGE LEVY		4.912		
		NOTE 7		

COMBINED AUTHORITIES					
		CAMBRIDGESHIRE AND PETERBOROUGH			
EXPENDITURE		2020/21			
		£m	£m	%	
CORPORATE COSTS-DIRECT			1.787	7.428	
PROJECT STAFFING		3.133			
RECHARGED TO GRANT					
FUNDED PROJECTS		-1.721	1.412	5.868	
SUPPORT SERVICES					
CONTRACTED OUT			0.489	2.032	
ACCOMODATION			0.34	1.413	
OTHER CORPORATE COSTS			0.22	0.914	
GOVERNANCE			0.164	0.682	
CAPACITY FUND			0.125	0.519	
COST OF BORROWING		2.555			10.618
INTEREST EARNED		-1.02	1.535	6.379	-4.239
FEASIBILTY STUDIES			0.811	3.371	
			6.883		
PROJECT COSTS			17.178	71.394	
TOTAL EXPENDITURE			24.061		
TOTAL INCOME			-22.065		
DEFICIT			1.996		
LEVY ON 7 AUTHORITIES			NIL		
DEFICIT MET FROM RESERVES					
INCOME INCLUDES BUSINESS					
RARE RETENTION.					
RESERVES CURRENTLY FORECAST			8.985		
			note 8		

COMBINED AUTHORITIES				
		GREATER MANCHESTER COMBINED AUTHORITY		
			3020/21	
			£m	£m
	INCOME	LEVIES	8.848	6.642
		GRANTS	94.603	71.023
		BUSINESS RATES	8.112	6.090
		FROM RESERVES	14.856	11.153
		OTHER INCOME	6.783	5.092
			133.202	
	EXPENDITURE	PROJECTS	115.874	86.991
		CORPORATE COSTS	17.328	13.009
			133.202	
	LEVY		8848.000	
	RANGE -10 LAS		0.634	1.671
	AVERAGE		0.885	
		OTHER THAN 1.950m THE LEVY		
		IS ON A POPULATION BASIS		
	THIS BUDGET IS FOR THE COMBINED AUTHORITY SERVICES ONLY			
	AND NOT THE MAYORAL SERVICES OF TRANSPORT, WASTE, FIRE AND POLICE.			
	RESERVES	AT 31ST MARCH 2020	87.818	
		AT 31ST MARCH 2019	111.075	
		split;		
		COMBINED AUTHORITY	14.856	
		APPLIED TO PROJECTS	8.401	
			NOTE 9	

NOTE 1 - NORTH LONDON WASTE

- Unusually they budget for a contingency. As they have balances this seems strange
- 73.99% of their expenditure is met by levy.
- Back Office Staff account for 5.69% of their gross expenditure.

Note 2 - WEST LONDON WASTE

- They have an entirely different approach. Nearly everything operationally is contracted out. The levy covers nearly all expenditure. Income from charges goes to the Contractor.
- Thus 96.29% of their expenditure is met by the levy.
- Back office staff account for 3.7% of their gross expenditure
- Their approach to Capital Expenditure is entirely different and no meaningful comparison can be made.

NOTE 3 - MORTLAKE CREMATORIUM BOARD

- This is a small single purpose Joint Committee. It is run commercially.
- The surplus in 2020/21 is forecast at £0.366m. There is no reverse levy. There is no borrowing for Capital Expenditure. Around £0.100 m is spent from revenue each year and the Cremators replaced every 12 years from the reserves. By 2028/29 £6.231m will be in reserves.
- Administrative Staff account for 18.08% of expenditure but this includes staff dealing with the public and funeral directors etc.

NOTE 4 - SOUTH WEST MIDDLESEX CREMATORIUM BOARD

- The Board carries out more cremations than Mortlake and has higher fees.
- The surplus before loan repayment in 2020/21 is forecast at £0.496m. A three-year loan was taken out in 2019/20 and the repayments are £0.280 per annum.
- The Board has in the past borrowed for Capital although the Cremators recently replaced have been leased.
- Until recently a reverse levy policy was in place but recently the decision has been made to retain surpluses to finance capital.
- Administrative staff account for 19.75% of gross expenditure broadly in line with Mortlake.

NOTE 5 - CARDIFF CITY DEAL

- It is difficult to draw conclusions as the City Deal is relatively new and the Programme Director has not been in post long.
- There is a Wider Investment fund which in 2020/21 will fund the growth in the City Deal Office. This is because that office is working on the projects for

which the Capital will be spent on. The Wider investment Fund is made up of £95m from H.M Treasury over 20 years and £120m from constituent authorities.

- Administrative expenses at 25% of the budget includes preparation for the 5-year Gateway Review and without those costs would be around 20%. This is probably high because the project work is in its infancy and as time goes on the administrative costs which are largely the service level agreement costs from Cardiff will remain much the same but become a lower proportion of total costs.

NOTE 6 - BELFAST CITY DEAL

- This was included only for Governance as no budgets have yet been set mainly due to the absence of a Northern Ireland Assembly

NOTE 7 - WEST OF ENGLAND COMBINED AUTHORITY.

- Combined authorities do not conform to the accounting norms of local authorities inasmuch as they tend to treat Capital and Revenue expenditure the same. Thus this budget contains both. This is because the project expenditure is largely met by grants.
- In this Authority there is a Transport Levy but that is because they have taken over some transport functions from the Constituent Authorities but have not yet taken over the staff. This is temporary levy which merely passes back the expenditure to the constituent authorities albeit not necessarily in the proportions of the local authorities spend.
- There is at present no other levy. The bulk of overheads being met by Retention of Business Rates as a pilot under the scheme. Presumably the rest of the overheads are charged to projects. The contribution to the Mayoral Budget is to cover money expended on feasibility studies for projects.
- Administrative costs amount to 3.515% of total expenditure. Many staff are shared with the Local Enterprise partnership and therefore would charge their time on an allocated basis.
- The Chief Executive is Chief Executive of the Local Enterprise Partnership as well and therefore given that normally a Combined Authority would have its own Chief Executive the administrative cost may not be representative. However even estimating for this would leave administrative costs under 4%.
- The Investment fund is part of the Devolution Deal and gives £30m to the Combined Authority per year for 30 years.
- Current Government Grant Streams are;
 - Housing Capacity Fund £1m
 - Mayoral Capacity Fund £1m
 - Adult Education £11.9m

- Future Bright £1.6m

This is the £15.5m shown in the spread sheet.

- Interest on balances was £0.3m more than forecast and this has been put in the project spend budget.
- Total Reserves are currently £0.568m

NOTE 8 - CAMBRIDGESHIRE AND PETERBOROUGH COMBINED AUTHORITY

- There is no levy at present in this Authority. The budget deficits are met from Reserves although that is forecast to have to change in 2023/24 when reserves run out. As in West of England they have a Pilot Business Rates Retention scheme which helps with the budget.
- The Corporate Staffing costs for direct staff are 7.427% but adding together these with corporate contracts and other administrative expenses still only gives around 11%. Although higher than West of England this is more in line with expectations.

NOTE 9 - GREATER MANCHESTER COMBINED AUTHORITY

- As noted elsewhere this is a very large organisation and out of scale with the other case studies. The figures I have enclosed are for Combined Authority Services only and do not include the Mayors responsibilities for Transport, Waste, Fire and Rescue and Police.
- The levy on the 10 constituent authorities only accounts for 6.642% of the total expenditure. 6.09% comes from retained Business Rates.
- Corporate Costs account for 13%.

SPREADSHEET CONCLUSIONS

LIMITATIONS

4.1 Collaboration between local authorities is achieved in a variety of ways and the case studies in this report give a snapshot of a number of ways that collaboration can be achieved. In all the cases used it would seem that the model used has proved successful and has worked.

4.2 It is very difficult to draw conclusions from all that would indicate that one model was better than another but there are pointers to the factors that make some models of collaboration better than others. The further limitation is the maturity of the collaboration. No authority is keen to quote starting up costs mainly because they are not exceptional but equate merely to year one costs. That is to say there are few things needed at the start which do not continue.

In most cases of Combined Authorities, for instance, the start up costs are found by top slicing investment programme grants. There is no bar to doing this and authorities argue that the necessity to work on feasibility studies for example is a legitimate part of the investment objective. In the same way it is argued that the objectives cannot be met by proper governance.

In addition to meet certain administrative or transitional costs the mayoral precept could be used. This has not been used generally and where the mayoral precept has been used it has been to meet the feasibility costs of a mayoral scheme.

WASTE AUTHORITIES

4.3 These are single purpose authorities. They are created by statute, but authorities are free to join or do their own thing. Looking at the financial data it is clear that they are created for the single purpose of waste disposal. Their contact with the public is very limited. That mostly is to do with communications and education. The accounting is fairly simple and straightforward. It therefore follows that they have low overheads. Their backoffice staff and limited committee and other meetings mean that the running costs are kept to a minimum.

4.4 The democratic element is normally drawn from Environment Portfolio holders and that means a high level of member input. This increases the likelihood of low overheads. The decision making is more likely to be on technical aspects than on cost.

- 4.5 The low level of administrative cost found in Waste Authorities is unlikely to occur in other areas of collaboration.

CREMATION AUTHORITIES

- 4.6 Again, they are single purpose authorities. They are entirely commercially run and are in competition with one another. However, a recent Competition and Markets Report clearly indicates that competition is not on price. The simple fact is that the price of a funeral means that the portion due to the Cremation Fee is not a decision-making factor. Either people are recommended to a Crematorium by an undertaker or they have family connections.
- 4.7 However, the customer experience is a clear factor in repeat business and making things as easy as possible for undertakers increases the likelihood of business.
- 4.8 For these reasons the cost of administrative staff is relatively high. Also, unlike Waste Authorities the member input tends to be from members with a personal interest rather than a technical knowledge.
- 4.9 The two examples used were managed differently, one having a Lead Borough and a Service Level Agreement and the other contracting for all corporate services separately. The outcome however was broadly similar in cost terms.

COMBINED AUTHORITIES AND CITY DEALS.

- 4.10 This is the other end of collaboration. Created by statute and joined by choice these Authorities exist to spend capital sums devolved from Central Government. Large sums are involved and generally they can raise money from private sector partners as well as through Government Grants. High standards of probity and integrity are essential, and this means a higher level of democratic and officer input from partners.
- 4.11 It follows then that their administrative costs will be higher and levels of around 10% of budgets seem to be the norm. The West of England seems out of step but they have only just started and the job shares with the Local Enterprise Partnership will change as they get further advanced with their programmes and I would expect administrative costs to rise.
- 4.12 The higher proportion for overheads at Cardiff is because they have just created the programme office and are preparing for a Gateway Review but have been slow getting programmes started. As Programmes grow the

percentage will drop.

- 4.13 Manchester is the furthest advanced but is a very large organisation. The Combined Authority is just a part of the services run by the Mayor. The figure of 13% for overheads for the Combined Authorities will fit with Cambridgeshire.
- 4.14 Collaboration between neighbouring authorities for specific well-defined purposes is likely from these examples to be cost effective. The expertise will come from the Authorities themselves, staff can be seconded thus minimising risks, Elected members will be keenly watching costs as they will not want increased costs via levies without visible improvements for their residents. Those improvements need to be things that could not be achieved without a wider area (transport for instance) or a wider population (education and skills).
- 4.15 As I said in the main conclusions, a statutory framework is important but so is the fact of choice on whether to be involved or not as this increases commitment to the objectives.

5. FINAL CONCLUSIONS

- 5.1 The report has documented some very successful examples of collaboration between individual local Authorities. There are some common principles behind these which have made such collaboration either attractive or sensible. They have all got some form of statutory backing. This gives local authorities the confidence to move ahead and the ability to have some sort of framework to assist them. The Collaboration is something within their own control. It is not mandatory but it offers the opportunity, should local authorities wish to collaborate, to do so in a structured way. It also means that Authorities can build on guidance and not necessarily re-invent the wheel.
- 5.2 Collaboration allows an Authority to achieve something which is too ambitious to have been contemplated on their own. It allows a synergy of expertise that would be expensive or difficult to assemble otherwise. It enables spatial or comprehensive planning over a much wider area. It gives the ability to provide a service or services to their residents which they otherwise could not do. Collaboration works best for services with a high entry cost.
- 5.3 The research has shown that there is significant cost variation amongst the collaboration arrangements considered in this report, including for example the Combined Authorities - which have the same statutory basis. Much of this variation would appear to depend on; the scale, scope and ambition of the collaboration arrangement; the individual decisions made within each collaboration on governance, management and staffing structures; and the functions they deliver and how they chose to implement those functions.
- 5.4 There is also some correlation between the cost of administration as a proportion of the overall costs and the maturity of the collaboration, particularly where there is a focus on developing longer term capital projects. It is not possible therefore to provide a single cost estimate / basis for collaboration concluding that a range of costs based on some of the above variables is more likely. One of the important issues which directly affects this difficulty is that the Combined Authorities are set up based on a submitted business case which includes very different programmes of work. In cases of single purpose authorities and authorities formed with similar objectives I would expect there to be a far greater correlation.
- 5.5 In the cases where Central Government wishes local authorities to achieve something it offers the chance to use Central Government Funds on a local basis. That is to say ensuring local people are more involved in the decision making and that the outcome is tailored to their needs. In the case of some

services such as Transport there is a sense in looking at a wider area and connectivity.

- 5.6 If Collaboration is considered important by Central Government then some kind of capacity grant will be necessary to meet set up costs. It is my view that Capacity Grants should be bid for. I have said in paragraph 4.2 that the start-up costs have been met universally and quite legitimately from Investment Grant monies but in my view it would aid transparency and concentrate minds if a business case were to be made for a capacity grant covering start-up costs but excluding legitimate investment expenditure. I am thinking of such expenditure as back office staff, accounting, governance costs including the necessity for audit and audit committees and scrutiny. They should be sufficient to encourage participation and give a real chance of success but small enough to encourage thinking of new ways of doing things and to ensure cost effectiveness. My view is that staffing levels expand to meet the resources made available
- 5.7 Collaboration has to bring the opportunity to achieve something not otherwise possible and using devolved funds works well. The statutory framework should insist on high standards of governance, openness and transparency. The basis of future funding should be set out clearly. The best examples allow collaborating authorities to agree themselves on apportionment of costs but set out a default basis if agreement cannot be reached.
- 5.8 Collaboration should allow bidding for grants and funds from the wider world and sponsorship from business if that is applicable. In the cases of simple collaboration secondment from existing authorities should be considered and using existing Chief Officer expertise. Collaboration must be based on involvement of Leaders and Chief Executives to show the commitment of the Authority.

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ARGYMHELLION ADRODDIAD Y
PWYLLGOR CYLLID:**

CRAFFU AR GYLLIDEB ATODOL GYNTAF LLYWODRAETH CYMRU 2020-21

MEHEFIN 2020

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro ac archwilio a yw cyllid canlyniadol a geir drwy fformiwla Barnett yn adlewyrchu anghenion Cymru, yn enwedig yn sgil COVID-19.

Ymateb: Derbyn

Nod hirdymor Llywodraeth Cymru yw system gyllido yn seiliedig ar anghenion sy'n gweithredu'n gyson ledled y DU. Ers y Cytundeb Fframwaith Cyllidol yn 2016, mae fformiwla Barnett o leiaf yn cynnwys elfen yn seiliedig ar anghenion ar gyfer Cymru. Mae'r 5% ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru yn ei gael ar ben ei chyfran poblogaeth o ddyraniadau newydd wedi arwain at £130m o gyllid ychwanegol mewn perthynas â'r mesurau a gyflwynwyd i ddelio â phandemig y coronafeirws. Er bod fformiwla Barnett ymhell o fod yn ddelfrydol, mae wedi darparu adnoddau ychwanegol sylweddol i ddelio â'r argyfwng mewn modd amserol.

Yn y sefyllfa bresennol, rydym yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn cael y cyllid cywir mewn perthynas â'r cyhoeddiadau niferus a mynych gan Lywodraeth y DU. Rydym yn pwysu ar Lywodraeth y DU am eglurder ynghylch lefel y cyllid a fydd ar gael i Lywodraeth Cymru eleni, i'n galluogi i reoli'r gyllideb yn effeithiol a dyrannu adnoddau'n brydlon i gefnogi economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn monitro'n ofalus y pwysau ar gostau yn sgil COVID-19. Os bydd elfennau'n codi na ellir mo'u rheoli o fewn y fframwaith presennol, byddwn yn dadlau i Lywodraeth y DU dros drefniadau ar wahân. Mae'r hyblygrwydd

ychwanegol y cyfeirir ato yn Argymhelliad 6 hefyd yn berthnasol yn y cyd-destun hwn.

Argymhelliad 2

Os na fydd cyllid canlyniadol yn adlewyrchu anghenion Cymru yn ddigonol yn sgil COVID-19, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau gyda Llywodraeth y DU opsiynau ariannu eraill ar frys.

Ymateb: Derbyn

Fel y nodir yn yr ymateb i Argymhelliad 1, mae Llywodraeth Cymru yn monitro'n ofalus y pwysau ar gostau eleni. Mae wedi cyflwyno ystod o fesurau arloesol yn gyflym mewn ymateb i'r pandemig, gan roi pwrpas newydd i gyllid a oedd eisoes yn bodoli a defnyddio adnoddau ychwanegol.

Mae sefyllfa'r gyllideb yn ddynamig, wrth i bwysau ar gostau a lefelau cyllido newid yn gyflym dros amser. Os na fydd y trefniadau presennol yn ddigonol i ddelio'n effeithiol ag effeithiau COVID-19, bydd Llywodraeth Cymru yn dadlau dros opsiynau eraill. Ynghyd â'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, rydym eisoes yn pwysu ar Lywodraeth Cymru am hyblygrwydd ychwanegol eleni i helpu i reoli effaith COVID-19 ar y gyllideb.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn mynnu bod Llywodraeth y DU yn rhoi cymaint o wybodaeth mor brydlon â phosibl, am unrhyw gyhoeddiad gan Lywodraeth y DU sy'n effeithio ar Gymru, ei thrigolion a/neu'r busnesau sy'n gweithredu yma.

Ymateb: Derbyn

Rydym wedi galw'n gyson ar Lywodraeth y DU am ymgysylltiad cynnar ac ystyrlon ynghylch mesurau gwario a newidiadau polisi a fydd yn effeithio ar gyfrifoldebau datganoledig cyn iddynt gael eu gwneud. Mae'n bwysig bod y trefniadau hyn yn cael eu ffurfioli a'u sefydlu er mwyn mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd Ymadawiad y DU â'r UE a'r ansicrwydd economaidd a chymdeithasol ehangach yn sgil COVID-19. Mae hyn yn cyd-fynd â datblygiadau ehangach, a gefnogir gan holl lywodraethau'r DU i sefydlu peirianwaith rhynglywodraethol effeithiol.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi am rôl y Cwnsler Cyffredinol a sut y mae gwaith y Cwnsler Cyffredinol ar adferiad COVID-19 yn cyd-fynd â gwaith cynllunio'r Gweinidog ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol hon a 2021-22.

Ymateb: Derbyn

Cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd a'r Cwnsler Cyffredinol ddatganiad ar y cyd ar 14 Gorffennaf ynglŷn â *Sefydlogi ac Ail-Greu yn Dilyn Pandemig Y Coronafeirws* a roddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae'r gwaith ar yr adferiad o COVID-19 yn cyd-fynd â'n paratodau ar gyfer cyllideb 2021-22.

Roedd y datganiad yn egluro sut rydym yn bwriadu blaenoriaethu ac arloesi wrth inni baratoi ar gyfer 2021-22, gan rannu'r ffordd ymlaen yn ddau gam – cam cychwynnol pan fyddwn ni'n sefydlogi ein heconomi a'n gwasanaethau cyhoeddus, ac yna ymdrech ddwys i ail-greu ein cymdeithas o'r newydd. Rydym eisoes wedi dechrau gweithio tuag at ail-greu, gan ddatblygu strategaeth a fydd yn cael ei rhoi ar waith ochr yn ochr â phroses y gyllideb. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar hynt y gwaith hwn yn yr hydref.

Argymhelliad 5

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu manylion y trafodaethau a gynhaliwyd â sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n wynebu gostyngiadau sylweddol mewn incwm eleni, ac mae'n argymhell bod y Pwyllgor yn cael manylion am sut y mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r sefydliadau hyn i liniaru effaith y gostyngiadau.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu'n helaeth â sefydliadau'r sector cyhoeddus yn ystod y pandemig COVID-19 ac mae'n parhau i wneud hynny. Cynhelir trafodaethau mynych ar lefel Gweinidogion a lefel swyddogion i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am effaith y pandemig ar y sefydliadau hynny, gan gynnwys yr effeithiau ariannol.

Mae'r effeithiau ar draws y sector yn amrywio ac mae Gweinidogion wedi cyfarfod â llawer o'r sefydliadau sydd o fewn eu cylch gwaith, gan weithio'n agos gyda hwy i ddeall yr anghenion penodol a'r ffordd fwyaf effeithiol o liniaru'r effeithiau ariannol.

Yn gynnar yn yr argyfwng, gwelwyd bod rhai sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn dibynnu ar incwm o ffynonellau masnachol i ariannu eu costau gweithredu ac na fyddai'r gweithgareddau masnachol hynny'n digwydd bellach oherwydd COVID-19. Darparwyd canllawiau ar sut y byddai'r Cynllun Cadw Swyddi yn berthnasol. Lle bo angen, mae hyn wedi galluogi'r sefydliadau hynny drefnu bod staff a oedd, fel arall, mewn perygl o golli eu swyddi yn cael eu rhoi ar ffyrlo.

Yn amlwg, mae awdurdodau lleol Cymru wedi colli incwm ac rydym wedi gweithio'n agos gyda nhw a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru drwy gydol y pandemig i ddeall a chefnogi llywodraeth leol yng Nghymru. Dyrannwyd £78m i Lywodraeth Leol yn y gyllideb atodol gyntaf at y diben hwn. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd nifer o'n cyrff nodedig wedi colli incwm oherwydd y pandemig. Mae Gweinidogion yn cwrdd

yn rheolaidd â'r cyrff hyn i drafod effaith ariannol gyffredinol COVID-19. Rydym wedi gwneud nifer o ddyraniadau mewn perthynas â'r amrywiol bwysau sy'n wynebu'r cyrff hyn a'r sectorau y maent yn eu cefnogi.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn cytuno â barn y Gweinidog bod angen hyblygrwydd o ran cynyddu y terfynau blynyddol sy'n ymwneud â benthyca a chronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei thrafodaethau â Thrysorlys EM ynghylch hyblygrwydd wrth fenthyca a chronfeydd wrth gefn.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi am drafodaethau Llywodraeth Cymru â Thrysorlys EM ynghylch y gallu i newid cyfalaf i reffeniw pan fydd y trafodaethau wedi gorffen.

Ymateb: Derbyn

Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â Llywodraeth y DU ynghylch hyblygrwydd cyllidebol ychwanegol. Byddwn yn ysgrifennu at y Pwyllgor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau'r trafodaethau hynny pan fyddant wedi'u cwblhau.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r sail i gyllid gael ei ailddyrannu o brosiectau cyfalaf i reffeniw fod yn glir, ac y dylai gynnwys yr asesiadau effaith perthnasol.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Gweinidogion yn ystyried pa gyllidebau cyfalaf y gellid eu rhyddhau i gefnogi newid i reffeniw os bydd angen. Bydd yr ystyriaeth hon yn cynnwys asesiad o'r

effeithiau posibl. I ddechrau byddwn yn mynd ati i nodi llithriant sydd wedi digwydd yn sgil y pandemig, ond rydym wedi'i gwneud yn glir y bydd nodi'r cyllidebau hyn o reidrwydd yn golygu penderfyniadau anodd a allai effeithio ar ein gallu i gyflawni ein cynlluniau cyfalaf. Wrth wneud hynny, byddwn yn ceisio diogelu mor bell â phosibl y cyllidebau hynny sy'n angenrheidiol naill ai i wireddu ymrwymadau contractiol presennol neu i ddiogelu ein dinasyddion, a'r cyllidebau hynny sy'n cefnogi blaenoriaethau allweddol y Llywodraeth.

Argymhelliad 9

Wrth roi gwybodaeth am y prosiectau sydd wedi'u gohirio er mwyn newid cyfalaf i refeniw, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion am y ffrydiau gwaith a gwerth y cyllid sy'n cael ei ryddhau.

Ymateb: Derbyn

Mae'r gwaith i nodi cyllidebau cyfalaf y gellid eu rhyddhau i gefnogi newid o cyfalaf i refeniw wrthi'n mynd rhagddo, ac nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto o ran pa brosiectau y gall fod angen eu gohirio. Unwaith y bydd unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud, bydd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn ysgrifennu at y Pwyllgor i nodi manylion a gwerth unrhyw gyllid a fydd yn cael ei ryddhau.

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o wybodaeth am y costau ychwanegol gwirioneddol a rhagamcanol ar gyfer byrddau iechyd lleol o ganlyniad i fesurau COVID-19 a'r dyraniadau i'w gwneud iddynt o ganlyniad i'r cynnydd mewn cyllid a adlewyrchir yn y Gyllideb Atodol.

Ymateb: Derbyn

Mae £573m wedi'i ddyrannu i'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y gyllideb hon i gefnogi'r ymateb i COVID-19. Mae hyn yn cynnwys

cyllid gwerth dros £113m yr oedd modd i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi pwrpas newydd iddo o fewn ei Brif Grŵp Gwariant a'i roi tuag at yr ymateb cychwynnol i COVID-19.

Mae dros £490m yn cael ei roi tuag at gefnogi Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd. Mae'r dyraniadau'n cynnwys cyllid ar gyfer cyfarpar diogelu personol, ysbytai maes, staff ychwanegol, profion a chyfarpar a nwyddau traul meddygol ychwanegol. Mae £288m wedi'i ddyrannu i gyrff y GIG yn ystod mis Mehefin a bydd gweddill y cyllid yn cael ei ddyrannu unwaith y bydd costau wedi'u cadarnhau.

Drwy gydol cyfnod cynnar y pandemig roedd modd inni sicrhau bod cyllid yn cael ei gymeradwyo'n gyflym a bod cymorth ariannol ar gyfer ymateb y GIG ar gael ar yr adeg gywir. Mae gyrff y GIG nawr yn cyflwyno gwybodaeth fonitro bob mis sy'n nodi effaith COVID-19 ar gostau yn ystod misoedd cynnar y flwyddyn yn ogystal â rhagolygon ar gyfer gweddill 2020-21.

Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, ar ôl i'r amcangyfrifon gael eu llunio, yn rhoi gwybodaeth am gostau datgomisiynu'r holl ysbytai maes.

Ymateb: Derbyn

Mae gwaith yn parhau ar lefel y costau datgomisiynu wrth i amcangyfrifon gael eu llunio gan gyrff y GIG ar y cyd â pherchnogion y safleoedd a chontractwyr. Bydd amcangyfrifon wedi'i diweddarau ar gael erbyn mis Medi 2020. Serch hynny, bydd dealltwriaeth fanylach o gostau alldro terfynol y datgomisiynu yn dibynnu ar am ba hyd yr oeddent mewn defnydd, cyflwr y safleoedd pan fyddant yn cael eu rhoi yn ôl ac union gwmpas y gwaith angenrheidiol i'w hadfer i'r safonau blaenorol.

Argymhelliad 12

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid rhoi gwybodaeth ychwanegol am y cymorth i Strategaeth 'Profi Orlhain Diogelu' Llywodraeth Cymru ac yn argymhell y rhoddir gwybodaeth ychwanegol o ran y strategaeth. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am yr hyn y bydd y cyllid yn ei gyflawni a'r dangosyddion perfformiad allweddol y bydd effeithiolrwydd gwariant cysylltiedig yn cael ei fesur yn eu herbyn, o ran y cyfalaf i sefydlu'r rhaglen a'i chostau cynnal dros y misoedd nesaf.

Ymateb: Derbyn

Amcanion allweddol y [strategaeth](#) Profi, Orlhain, Diogelu a gyhoeddwyd ar 14 Mai yw:

- Nodi pobl sydd â symptomau sy'n gyson â COVID-19, a'u galluogi i gael eu profi wrth iddynt ynysu eu hunain oddi wrth eu teulu ehangach, eu ffrindiau a'u cymuned;
- Orlhain yr unigolion hynny sydd wedi bod mewn cysylltiad agos â'r person sydd wedi profi'n bositif ar unrhyw achlysur yn ystod y cyfnod hyd at ddau ddiwrnod cyn iddynt brofi symptomau, gan ofyn iddynt gymryd rhagofalon a hunanyysu (am 14 diwrnod);
- Darparu cyngor ac arweiniad, yn enwedig pan fo'r unigolyn sydd wedi profi'n bositif neu ei gysylltiadau yn agored i niwed neu mewn mwy o berygl;
- Os yw'r unigolyn yn cael prawf negatif ac nad yw'r symptomau o ganlyniad i'r coronafeirws, sicrhau y gall unigolion a'u cysylltiadau fynd yn ôl i'w trefn arferol cyn gynted â phosibl.

Mae cyflymder presennol gwaith ymchwil yn ein galluogi i wella a mireinio ein hymateb drwy'r amser, yn unol ag egwyddorion craidd y strategaeth. Mae cyllid sy'n cael ei ddsbarthu i fyrdau iechyd, awdurdodau lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn galluogi'r sefydliadau hyn i gyflawni yn erbyn yr amcanion allweddol.

Profi

Mae [strategaeth](#) profi newydd Llywodraeth Cymru yn nodi pam, ble a sut y byddwn yn profi. Dyma fydd ein pedair blaenoriaeth ar gyfer profi dros yr wythnosau a'r misoedd i ddod:

1. **Diogelu ein GIG** i gadw ein staff a'n cleifion yn ddiogel;
2. **Olrhain cysylltiadau** i atal lledaeniad y feirws a deall sut mae'n trosglwyddo o'r naill berson i'r llall;
3. **Diogelu grwpiau agored i niwed** a'r rhai sydd â'r risg fwyaf;
4. **Darpariaeth ar gyfer y dyfodol** – defnyddio technolegau newydd i wella ein dealltwriaeth o'r feirws.

Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar y dystiolaeth ddiweddaraf a gyflwynwyd gan ein Grŵp Cyngori Technegol a gwaith y Grŵp Cyngori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) a'i is-grwpiau. Fodd bynnag, gwyddom fod data a thystiolaeth yn dal i esblygu, a bod cwestiynau'n parhau am y feirws a'n hymateb imiwnyddol unigol ninnau. Bydd y strategaeth profi yn ailadroddol ac yn parhau i esblygu wrth i dystiolaeth ddod i'r amlwg. Bydd yr amcanion trosfwaol hyn yn cael eu cefnogi gan fesurau cychwynnol i adolygu effeithiolrwydd ein hymateb.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol Profi

- Nifer y Profion Antigenau sydd wedi'u cwblhau
- Nifer y Profion Gwrthgyrff sydd wedi'u cwblhau
- Amseroedd Dychwelyd Canlyniadau (o'r sampl i'r canlyniad)
 - Labordai GIG Cymru
 - Labordai heblaw am rai GIG Cymru

Mae profi ar raddfa gyda chanlyniadau cyflym yn galluogi unigolion a sefydliadau i gymryd camau i leihau'r risg o ledaenu'r feirws. Mae cynnal profion cyflym hefyd yn hanfodol i'n heconomi a'n busnesau, er mwyn sicrhau y gall unigolion sydd â symptomau ond heb fod â COVID-19 fynd yn ôl i weithio ac i nodi ble y mae potensial

i sylwi ar unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg neu unrhyw achosion posibl. Mae gwaith yn mynd rhagddo drwy'r amser i fireinio'r mesurau hyn a sicrhau bod data ar gael ac yn hawdd i'w harchwilio yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Olrhain Cysylltiadau

Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod £45m ar gael i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol ar gyfer cost y gwaith olrhain cysylltiadau. Mae hyn yn ddigon i gefnogi cyfanswm o 1,800 o weithwyr gyda chapasiti i olrhain cysylltiadau tua 11,000 o achosion newydd o brofion positif yr wythnos.

Golyga hyn ein bod mewn sefyllfa dda iawn i allu delio â'r posibilrwydd o ail don fawr o'r feirws. Serch hynny, byddwn yn adolygu'r sefyllfa'n gyson ac yn ehangu'r gwaith os bydd angen.

Ar hyn o bryd, mae tua 700 o swyddogion olrhain cysylltiadau ar waith – mae hyn yn fwy na digonol i ymdopi â'r lefel isel bresennol o bobl sy'n cael prawf positif yng Nghymru – ac mae cynlluniau rhanbarthol yn eu lle i ehangu'r gweithlu yn gyflym pe bai angen. Yn benodol, byddwn yn canolbwyntio'n agos ar barodrwydd sefydliadau ac ar gynllunio at y gaeaf.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol Olrhain Cysylltiadau

Gall system olrhain cysylltiadau effeithiol helpu i leihau trosglwyddiad y feirws, ac mae dwy elfen i system effeithiol; (i) cyflymder ym mhob rhan o'r broses (o amseroedd dychwelyd canlyniadau profion i ganfod cysylltiadau agos yn gyflym) a (ii) cynnal cymorth, cefnogaeth a chydymffurfiaeth y cyhoedd. Mae dangosyddion perfformiad allweddol olrhain cysylltiadau yn cynnwys:

- Nifer yr achosion positif y llwyddwyd i gysylltu â nhw ac a ddarparodd fanylion cysylltiadau agos;

- Canran yr achosion positif y llwyddwyd i gysylltu â nhw ac a ddarparodd fanylion cysylltiadau agos o fewn 24 awr ar ôl eu nodi gyntaf yn y system;
- Nifer y cysylltiadau agos y llwyddwyd i'w holrhain a'u cynghori i hunanynysu;
- Canran y cysylltiadau agos y llwyddwyd i'w holrhain a'u cynghori i hunanynysu o fewn 24 awr ar ôl eu nodi;
- Nifer y cysylltiadau agos sy'n cydymffurfio â'r cyngor i hunanynysu;
- Nifer y cysylltiadau agos sydd wedyn yn cael prawf positif am COVID-19.

Mae'n dra hysbys drwy dystiolaeth ryngwladol (Sefydliad Iechyd y Byd) a chenedlaethol (SAGE a'r Grŵp Cynghori Technegol) fod y cyflymder ymateb o ddechrau'r broses i'w diwedd yn allweddol, fel y mae parodrwydd y cyhoedd i ddilyn cyngor a chadw at y gyfraith. Mae cyfraddau diffyg cydymffurfio, wrth eu natur, yn anodd eu mesur. Serch hynny, rydym wrthi'n ystyried sut i wella dealltwriaeth yn y maes hwn. Mae'n bwysig nodi bod gwaith modelu dangosol gan [SAGE yn nodi](#) bod angen cyfradd lwyddo o 80% ar gyfer olrhain cysylltiadau a hunanynysu pan fo cyfradd atgynhyrchu'r feirws, neu R , yn 2.5. Byddai hyn yn fesur/dangosydd perfformiad allweddol trosfwaol ar gyfer olrhain cysylltiadau a Phrofi, Olrhain, Diogelu.

Diogelu

Prif nod y prosiect diogelu yw annog y cyhoedd i gydymffurfio â'r canllawiau a'r ddeddfwriaeth. Yn benodol, mae'r prosiect diogelu'n canolbwyntio ar sicrhau bod unrhyw heriau a allai atal unigolion rhag hunanynysu, pan fo angen iddynt wneud hynny, yn cael eu lleihau. Ar hyn o bryd, mae'r cymorth hwn yn cael ei ddarparu drwy awdurdodau lleol gan ddefnyddio cronfeydd caledi a mesurau lleol. Mae'r prosiect diogelu'n ceisio sicrhau proses fesur gyson a chllir a bod awdurdodau lleol yn parhau i ddarparu cymorth hunanynysu i ddinasyddion agored i niwed. Byddai cyfraddau cydymffurfio yn cynnig dangosydd perfformiad allweddol defnyddiadwy ond dylid ystyried her sefydlu'r ffynhonnell ddata hon, sydd wedi'i nodi uchod o dan olrhain cysylltiadau.

Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyflymu gwaith i gefnogi economïau lleol. Bydd newidiadau mewn arferion manwerthu yn effeithio ar ganol trefi yn y tymor hwy, ac mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddeall sut y bydd y gwaith hwn yn cael ei ailffocysu o ystyried yr amgylchiadau presennol.

Ymateb: Derbyn

Lansiodd Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth Gronfa Her yr Economi Sylfaenol, ac ynddi £4.5m, fis Mai 2019. Cafodd y cyllid ei ddyrannu i 52 o brosiectau a gyhoeddwyd fis Tachwedd 2019 ac y mae rhaid eu cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2021.

Mae llawer o brosiectau'r Gronfa Her, wrth eu natur, yn seiliedig ar leoedd, gan ganolbwyntio ar dreialu dulliau newydd o greu economïau lleol cryfach a mwy cydnerth fel y bydd Gwaith Teg ar gael i bobl leol.

Mae rhai o brosiectau'r Gronfa Her yn canolbwyntio'n benodol ar ailystyried canol trefi. Os byddant yn llwyddiannus, bydd y prosiectau hyn yn cynnig cyfleoedd dysgu gwerthfawr a all helpu canol trefi i addasu i'r ffordd newydd o fyw bob dydd wrth inni adfer o COVID-19.

Mae COVID-19 wedi effeithio ar brosiectau'r Gronfa Her. Mae llawer ohonynt wedi gorfod gohirio ac wedi methu â chadw at yr amserlen oherwydd y cyfyngiadau symud a gyflwynwyd. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth uniongyrchol i'r prosiectau hyn i'w galluogi i ganolbwyntio ar yr hyn y gellir ei gyflawni erbyn diwedd mis Mawrth. Mae Cymuned Ymarfer wedi'i sefydlu i gynorthwyo prosiectau i gydweithio ac i alluogi arferion da i gael eu casglu a'u lledaenu'n gyflym, gan helpu i adfywio economïau lleol.

Lansiwyd Trawsnewid Trefi fis Ionawr 2020 i fynd i'r afael â dirywiad canol trefi a'r lleihad yn y galw am fanwerthu ar y stryd fawr. Cyhoeddwyd cyllideb gwerth £90m i gefnogi mesurau i fynd i'r afael â materion penodol mewn canol trefi, gan gynnwys cronfa gwerth £15m a chyngor arbenigol ar gyfer eiddo gwag, £5.3m i helpu i gyflwyno seilwaith gwyrdd, a mabwysiadu egwyddor 'Canol Tref yn Gyntaf' fel polisi'r Llywodraeth, a fyddai'n annog cyrff y sector cyhoeddus i leoli gwasanaethau yng nghanol trefi.

Mae'n debygol bod COVID-19 wedi cyflymu'r dirywiad hwn ac mae gwaith brys wedi'i wneud i adolygu cyllidebau presennol ac ystyried ailgyfeirio cyllid i helpu canol trefi i ailagor ac adfer o COVID-19. Mae dros £5m wedi'i ddyrannu i weithgareddau a fydd yn helpu canol trefi i ailagor. Gallai ymyriadau posibl gynnwys cyllid i gefnogi'r defnydd mwyaf effeithiol o fannau awyr agored, gwneud trefi'n fwy gwyrdd, darparu seilwaith i gefnogi marchnadoedd stryd, hwyluso defnydd dros dro o adeiladau gwag, ac addasu blaen siopau. Bydd unrhyw fuddsoddiad yn ystyried dyfodol mwy hirdymor canol ein trefi a mwy o bwyslais ar roi'r egwyddor Canol Tref yn Gyntaf ar waith yn rhagweithiol ar draws pob sector. Y weledigaeth a gefnogir yw trefi sydd â "Hamdden, Byw a Dysgu" yn gyson â chynnig manwerthu sy'n canolbwyntio ar ardaloedd daearyddol llai.

Mae Grŵp Gweithredu Cenedlaethol ar Ganol Trefi wedi sefydlu, sy'n cael ei gadeirio gan y Dirprwy Weinidog Tai ac Adfywio ac yn canolbwyntio ar gamau a fydd yn adfywio canol trefi yn sgil llacio'r cyfyngiadau. Fe'i cefnogir gan bedwar Grŵp Rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar adfer a thyfu canol ein trefi.

Mae ymchwil wedi'i chomisiynu gydag arbenigwr blaenllaw ar yr Economi Sylfaenol yng Nghymru. Bydd yr ymchwil yn chwarae rhan hanfodol o ran llywio a chefnogi adferiad economaidd a chymdeithasol canol trefi Cymru ar ôl COVID-19, gan ganolbwyntio ar gynaliadwyedd canol trefi a sut le ydyn nhw i fyw ynddynt. Bydd hefyd yn ystyried y rôl y mae sefydliadau angori yn ei chwarae yng nghanol trefi, a

sut y gall y sector cyhoeddus gefnogi ac annog cyflogeion i fyw a gweithio yng nghanol trefi.

Mae Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth wedi cyhoeddi £3.7m i gefnogi a hybu cynnig Trawsnewid Trefi yn rhanbarth y Cymoedd. Bydd y cyllid yn ychwanegu at y cyllid sydd eisoes ar gael drwy'r agenda Trawsnewid Trefi ehangach. Bydd yn cael ei dargedu'n benodol at ganol trefi llai yn y Cymoedd ac yn canolbwyntio ar ymateb i effaith COVID-19, gan gynnwys ystyried sut i alluogi cymunedau i weithio'n nes at eu cartref o fewn canol trefi ac elfennau'n ymwneud â theithio llesol.

Hefyd, yn ddiweddar cyhoeddodd Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth gronfa newydd gwerth £15.4m ar gyfer trafndiaeth gynaliadwy leol i'w gwneud yn fwy diogel ac yn haws i bobl deithio yn eu trefi drwy ddarparu seilwaith teithio llesol a chynaliadwy gwell. Bydd hyn yn helpu i gynnal yn yr hirdymor y cynnydd cadarnhaol mewn teithio llesol yr ydym wedi'i weld yn ystod y pandemig.

Rhwng 2014 a diwedd y rownd gyllido bresennol, bydd tua **£800m** o fuddsoddiad mewn trefi ledled Cymru (gan gynnwys cyllid ysgogi) wedi'i alluogi drwy weithgareddau Adfywio.

Argymhelliad 14

Pan fydd trafodaethau â llywodraeth leol a Thrysorlys EM wedi dod i ben, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi dadansoddiad llawn i'r Pwyllgor o'r cyllid ychwanegol ar gyfer llifogydd a sut y mae'n bwriadu dyrannu'r cyllid hwnnw.

Ymateb: Derbyn

Er gwaethaf y pandemig, rydym wedi parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i asesu effeithiau dinistriol a pharhaus llifogydd a pha gymorth sydd ei angen yn y tymor hwy. Ar ôl cwblhau'r asesiadau angenrheidiol cychwynnol hyn, ysgrifennodd y

Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ar 11 Mehefin i ofyn am gadarnhad y bydd Llywodraeth y DU yn cadw at ei haddewid i ddarparu cyllid ar gyfer y costau mwy hirdymor hyn. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt a byddwn yn ysgrifennu at y Pwyllgor i roi rhagor o fanylion unwaith y maent wedi'u cwblhau.

Argymhelliad 15

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o wybodaeth am sut y mae cyllid yn cael ei ailflaenoriaethu i ganolbwyntio ar adferiad gwyrdd o COVID-19.

Ymateb: Derbyn

Drwy'r gwaith sy'n cael ei arwain gan y Cwnsler Cyffredinol, rydym yn ystyried sut i ganolbwyntio adnoddau ar adferiad gwyrdd o COVID-19. Ymysg y materion cynnar sy'n cael eu hystyried yn y gwaith hwn y mae sut i wneud y defnydd gorau posibl o'n hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy.

Argymhelliad 16

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth am faint o arian ychwanegol a gaiff ei roi a sut y bydd yn cael ei ddyrannu i gefnogi awdurdodau lleol wrth ymgorffori newidiadau trafnidiaeth cadarnhaol.

Ymateb: Derbyn

Rydym wedi darparu £15.4m o gyllid i awdurdodau lleol i gyflwyno mesurau i wella'r diogelwch a'r amodau ar gyfer dulliau teithio cynaliadwy a llesol yn eu hardaloedd mewn ymateb i argyfwng COVID-19 ac i wneud newidiadau parhaol mewn ymddygiad teithio yn y dyfodol. Mae £2m o'r cyllid yn cael ei ddefnyddio'n benodol i weithredu cynlluniau o amgylch ysgolion. Bydd y cyllid yn gwella amodau ar gyfer cerddwyr a seiclwyr mewn trefi ac yng nghefn gwlad.

Ein bwriad yw ategu'r cyllid cychwynnol hwn a chynnig cyllid pellach lle bo angen.

Argymhelliad 17

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn fwy penodol o ran senarios cynllunio sy'n cael eu hystyried ar gyfer diwedd cyfnod pontio'r UE a'r cyllid cysylltiedig sydd ei angen.

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad y Prif Economegydd wedi'i ddiweddarau pan fyddwn yn cyhoeddi Cyllideb Ddrafft 2021-22. Bydd yr adroddiad hwn yn dadansoddi ffactorau amrywiol, gan gynnwys yr ymadawiad â'r UE, sy'n debygol o effeithio ar sylfaen drethu Cymru ac ar ragolygon cyllidol Llywodraeth Cymru.

Hefyd, y sefyllfa o hyd yw ein bod, mewn ymateb i'r ansicrwydd parhaus ynghylch ymadael â'r UE, wedi cynllunio ar y sail y byddwn yn cael gan Lywodraeth y DU, neu'r UE, yr un lefel o gyllid sydd yn hanesyddol wedi dod i Gymru o'r UE. Rydym yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU am fwy o eglurder ynghylch sut y bydd yn gwireddu ei haddewid na fydd Cymru yn colli ceiniog o gyllid yr UE ar ôl diwedd y cyfnod pontio, ac y bydd y setliad datganoli'n cael ei barchu'n llawn. Yn y cyfnod yn arwain at yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, rydym yn disgwyl cael trafodaethau manylach â Llywodraeth y DU ynghylch ein disgwyliadau ynglŷn â hyn, yn seiliedig ar ddadansoddiad o gyllid yr UE sydd wedi'i ddyfarnu yng Nghymru yn y gorffennol, a'n dealltwriaeth orau o gostau tebygol cymryd rhan yn rhaglenni'r UE yn y dyfodol neu raglenni domestig a gyflwynir yn eu lle.

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

11 Awst 2020

Annwyl Llŷr,

Er mwyn cefnogi'r blaengynllunio ariannol ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol, cytunais y llynedd i ysgrifennu ar yr adeg hon o'r flwyddyn yn nodi gwahanol ffactorau i lywio cynllunio cyllidebol yn y dyfodol gan gynnwys asesiad gorau'r Llywodraeth o lefel y cyllid a fydd ar gael yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r rhagolygon cyllidol a chyllidebol yn arbennig o ansicr ar hyn o bryd. Senario diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer cyllid cyhoeddus y DU, a gyhoeddwyd yn ei Adroddiad Cynaliadwyedd Cyllidol ym mis Gorffennaf, yn rhoi'r diffyg yn 2020-21 yn £372 biliwn (gan gynnwys y cyhoeddiadau yn Niweddariad Economaidd y Canghellor ar gyfer yr Haf). Mae hyn yn cymharu â'i rhagolwg o £55 biliwn ym mis Mawrth. Disgwylir bellach i'r diffyg aros uwchlaw £100 biliwn tan ganol y degawd.

Gan droi at ein cynlluniau ein hunain, ers pennu manylion terfynol y gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol, mae Llywodraeth Cymru wedi cael swm ychwanegol o £4 biliwn i ariannu ei hymateb i bandemig y coronafeirws. Nid dyma'r sefyllfa derfynol ar gyfer 2020-21 o reidrwydd, gyda'r gyllideb yn dal yn ddarostyngedig i newidiadau pellach a sylweddol o bosibl, yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae graddfa'r newidiadau hyn ac effaith cyffredinol y pandemig ar gyllid cyhoeddus y DU yn ei gwneud yn anodd iawn darparu asesiad cyffredinol o gyllid ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyhoeddi canlyniad ei Hadolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn yr hydref, gan gwmpasu 2021-22 i 2023-24 ar gyfer gwariant adnoddau a 2021-22 i 2024-25 ar gyfer gwario cyfalaf. Cyn hynny, ni fydd gennym unrhyw gynlluniau cadarn i seilio cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd i ddod arnynt.

Ni nododd Canghellor y Trysorlys amlen wario gyffredinol pan lansiodd yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ar 21 Gorffennaf, oherwydd ansicrwydd digynsail. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r cynlluniau a nodwyd yng Nghyllideb Mawrth yn cynnig canllaw dibynadwy ar gyfer hynt gwario cyhoeddus yn y DU yn y dyfodol. O gofio'r codiadau sylweddol iawn yn ein grant bloc eleni, mae'n debygol iawn y gwelwn ostyngiad yn 2021-22. Bydd graddfa'r gostyngiad hwnnw'n dibynnu ar hynt y pandemig yn y dyfodol ac ymateb Llywodraeth y DU ato o ran polisi cyllidol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 79

Mae cryn ansicrwydd hefyd ynghylch effaith y trethi datganoledig a lleol ar Gyllideb Llywodraeth Cymru dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae'n debygol y bydd gostyngiadau sylweddol a pharhaus mewn refeniw yn y flwyddyn bresennol a'r tu hwnt. Mae'r fframwaith cyllidol yn rhoi amddiffyniad rhag sioc economaidd ledled y DU a fydd yn gwrthbwysu rhai o'r gostyngiadau hyn. Er hynny, mae'n rhy gynnar dweud a fydd gan y sefyllfa economaidd bresennol effaith gymharol fwy neu lai ar refeniw yng Nghymru nag mewn mannau eraill.

